# Hunluniau Bwyd

1. Barn pwy? Darllenwch y farn, yna rhowch enw'r person ifanc sy'n mynegi'r farn honno yn y golofn ar y dde.

| Barn | | Pwy? |
|---|---|---|
| i) | Rwy'n casáu hunluniau bwyd. | |
| ii) | Dwi ddim yn cytuno â Michelle Obama. | |
| iii) | Mae tynnu llun o'r bwyd yn gwneud i chi fwynhau'r bwyd yn fwy wedyn. | |
| iv) | Dim ond ychydig o hwyl yw hunluniau bwyd. | |
| v) | Dwi ddim yn deall pam mae rhai bwytai'n gwahardd tynnu hunluniau bwyd. | |
| vi) | Mae rhai chwiwiau hunluniau'n codi arian i elusennau. | |
| vii) | Dwi ddim yn deall y chwiw hunlun ddiweddaraf – tynnu llun ohonoch chi'n curo eich dwylo. | |

2. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau a'r ymadroddion hyn yn ymddangos yn y darn.

'Ice Bucket Challenge'    bwyd ffiaidd
bwyd ysgol
aros am ychydig    rhoi dim byd i'r elusen

3. Beth yw’r dadleuon **yn y darn** o blaid ac yn erbyn hunluniau bwyd? Nodwch nhw yn y tabl isod.

| **O blaid hunluniau bwyd** | **Yn erbyn hunluniau bwyd** |
|---|---|
| | |

4. Sawl person yn y dosbarth sy'n **tynnu** hunluniau bwyd?
    - Ydych chi'n **tynnu mwy** neu **lai** o hunluniau bwyd nag roeddech chi flwyddyn yn ôl?
    - Pam rydych chi'n gwneud hyn?
    - At bwy rydych chi'n anfon yr hunluniau?
    - Beth fyddai eich hunlun bwyd delfrydol?

Os ydych chi wedi **derbyn** hunluniau bwyd:

- Ydych chi'n **derbyn mwy** neu **lai** o hunluniau bwyd nag roeddech chi flwyddyn yn ôl?
- Rhowch enghreifftiau ohonyn nhw.
- Beth yw ymateb chi wrth eu derbyn? Ydych chi'n ymateb fel Beca, neu fel Steffan?
- Oddi wrth bwy hoffech chi dderbyn hunluniau bwyd?

5. O ran hunluniau'n **gyffredinol**:
    - Oes lleoliad lle'r hoffech chi dynnu hunlun?
    - Ydych chi wedi clywed am achosion lle mae rhywun wedi cael ei ladd wrth dynnu hunlun? (Mae'n debyg fod mwy o bobl yn cael eu lladd yn tynnu hunluniau nag sydd yn cael eu lladd mewn ymosodiadau gan siarcod)
    - Gyda pha arwr neu arwres yr hoffech chi dynnu hunlun?
    - Beth yw'r chwiwiau diweddaraf?
    - Ydy tynnu gormod o hunluniau yn gallu mynd yn obsesiwn? (Mae'n debyg fod rhai pobl ifanc yn mynd i dynnu 25,700 hunlun yn ystod eu bywydau)

6. Dychmygwch eich bod yn berson enwog. Beth fyddai eich barn am hunluniau wedyn?
   Ysgrifennwch ymson byr amdanoch chi fel person enwog yn cyrraedd achlysur pwysig, e.e. lansiad ffilm.

Gweiddi

**Atebion**

1.

| | Barn | Pwy? |
|---|---|---|
| i) | Rwy'n casáu hunluniau bwyd. | Beca |
| ii) | Dwi ddim yn cytuno â Michelle Obama. | Tom |
| iii) | Mae tynnu llun o'r bwyd yn gwneud i chi fwynhau'r bwyd yn fwy wedyn. | Beca |
| iv) | Dim ond ychydig o hwyl yw hunluniau bwyd. | Steffan |
| v) | Dwi ddim yn deall pam mae rhai bwytai'n gwahardd tynnu hunluniau bwyd. | Katie |
| vi) | Mae rhai chwiwiau hunluniau'n codi arian i elusennau. | Katie |
| vii) | Dwi ddim yn deall y chwiw hunlun ddiweddaraf – tynnu llun ohonoch chi'n curo eich dwylo. | Steffan |